**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD CABINET**
**CABINET MEMBER'S DECISION NOTICE**

PWNC/SUBJECT: Grant Refeniw i Awdurdodau Lleol yng Nghymru gan Gyfarwyddiaeth yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy
*Revenue Grant to Local Authorities in Wales from the Environment and Sustainable Development Directorate*

---

AELOD CABINET/CABINET MEMBER

Y Cynghorydd / *Councillor* John Wynn Jones

---

PENDERFYNIAD/DECISION

Rhannu y grant o £3,531,718 gan Gyfarwyddiaeth yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru sydd sydd wedi ei neilltuo i Gyngor Gwynedd o fel a ganlyn yn 2016/17:

Rheoli Adnoddau Naturiol - £101,500
Rheoli Gwastraff a Defnydd Adnoddau'n Effeithlon - £3,373,470
Ansawdd Amgylchedd Lleol - £56,748

*To divide the grant of £3,531,718 received from Welsh Government's Environment and Sustainable Development Directorate that has been earmarked for Gwynedd Council as follows in 2016/17:*

*Natural Resources Management - £101,500*
*Waste Management and Effective Use of Resources - £3,373,470*
*Quality of the Local Environment - £56,748*

---

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD/REASONS FOR THE DECISION

Ers mis Ebrill 2015 mae'r Gyfarwyddiaeth Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy o fewn Llywodraeth Cymru wedi bod yn gyfrifol am weinyddu un ffynhonell grant ar gyfer awdurdodau lleol yn hytrach na'r amrywiaeth o wahanol grantiau oedd yn bodoli ar gyfer y maes yn y gorffennol.

Rhaid i'r gwaith a wneir gan ddefnyddio'r arian fod yn rhan o gylch gwaith Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy a rhaid iddo fynd i'r afael â blaenoriaethau'r Gweinidog, sef:

- Annog twf gwyrdd
- Gwydnwch a diogelwch
- Cydweithio er mwyn darparu gwasanaethau gwell a sicrhau darpariaeth rheng flaen
- Cymru decach

Bydd dyraniad yr arian i awdurdodau lleol yn yn lleihau o 4% yn 2016/17 tra bydd disgwyl hefyd i gynnwys elfennau megis bioamrywiaeth a phobl a safleoedd (oedd ddim wedi eu cynnwys yng nghais y Cyngor yn 2015/16). Yn ogystal, disgwylir i'r ceisiadau a gyflwynir roi sylw penodol i gyfraniad tuag at nodau y Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol.

Bu swyddogion allweddol o fewn yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Adran Ymgynghoriaeth a'r Adran Rheoleiddio yn gyfrifol am lunio'r cynnig a amlinellir ac mae cytundeb ynghylch defnydd a rhanniad y grant ar gyfer 2016/17.

Felly, ar gyfer 2016/17, bydd y prosiectau canlynol yn cael eu gweithredu trwy grant

Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy;

1. **Rheoli Adnoddau Naturiol**
    - Cynllun Rheoli Traethlin 2
    - Codi Ymwybyddiaeth o Lifogydd a Gwydnwch
    - Reoli Asedion Amddiffyn rhag Llifogydd
    - Digwyddiadau Llifogydd Gaeaf 2015/16
    - Archifo
    - Bioamrywiaeth
    - Pobl a Safleoedd

2. **Rheoli Gwastraff a Defnydd Adnoddau'n Effeithlon**
    - Cyfraniad i Wasanaeth Didoli Ymyl y Ffordd
    - Gwasanaeth Casglu Gwastraff Bwyd yn Wythnosol
    - Gwasanaeth Casglu Gwastraff Cewynnau yn Wythnosol
    - Ymgyrch Cewynnau Go Iawn
    - Banciau Ailgylchu Tecstilau Cymunedol
    - Ymgyrch Symudol Codi Ymwybyddiaeth

3. **Ansawdd Amgylchedd Lleol**
    - Gweithgaredd Craidd Trefi Taclus
    - Taclo Tipio Slei-bach a Thacluso Cymuned
    - Prosiect Blitz
    - Sioeau Teithiol Amgylcheddol
    - Ymgyrch Baw Cwn

*Since April 2015, the Environment and Sustainable Development Directorate within Welsh Government has been responsible for administrating one grant source for local authorities rather than the various grants that used to exist in the field in the past.*

*The work undertaken by using this money must be a part of the remit of the Environment and Sustainable Development Directorate and it must address the Minister's priorities, namely:*

- *Promotion of green growth*
- *Resilience and safety*
- *Collaboration in order to provide better services and ensuring front-line provision*
- *A fairer Wales*

*The allocation of funding to local authorities will reduce 4% in 2016/17 whilst it will also be expected for elements such as biodiversity, people and sites (which were not included in the Council's bid in 2015/16) to be included. In addition, the applications submitted will be expected to give particular attention to the aims of the Well-being of Future Generations Act.*

*Key officers from the Highways and Municipal Department, Consultancy Department and Regulatory Department were responsible for drawing-up the outlined proposal and there is agreement regarding the use and allocation of the grant for 2016/17.*

*Therefore, for 2016/17, the following projects will be implemented by using the grant received from the Environment and Sustainable Development Directorate:*

***1. Natural Resources Management***

- *Shoreline Management Plan 2*
- *Raising awareness of Flooding and Resilience*
- *Flood Protection Asset Management*
- *Winter Flooding 2015/16 Incidents*
- *Archives*
- *Biodiversity*
- *People and Sites*

***2. Waste Management and Effective Use of Resources***

- *Contribution to the Roadside Separation Service*
- *Weekly Food Waste Collection Service*
- *Weekly Nappy Waste Collection Service*
- *Real Nappies Campaign*
- *Community Textile Recycling Banks*
- *Awareness Raising Roadshow Campaign*

***3. Quality of the Local Environment***

- *Tidy Towns Core Activity*
- *Tackling Fly-tipping and Tidying Communities*
- *Blitz Project*
- *Environmental Roadshows*
- *Dog Fouling Campaign*

YSTYRIAETHAU PERTHNASOL/ RELEVANT CONSIDERATIONS

Dim

*None*

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL/VIEWS OF STATUTORY OFFICERS

1. Y Prif Weithredwr/Chief Executive:-

Gan fod cytundeb rhyngadrannol yn ei le ar y defnydd o'r grant, nid oes gennyf unrhyw beth i'w ychwanegu i'r daflen

*Because interdepartmental agreement is in place on the use of the grant, I do not have anything to add to the note*

2. Swyddog Monitro/ Monitoring Officer:-

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb

*No observations in relation to proprierty.*

3. Prif Swyddog Cyllid/Chief Finance Officer:-

Cadarnhaf fod grant 2016/17 wedi lleihau £136k o'i gymharu â 2015/16 (tua 4% yn is). Mae'r grant gweddilliol ar ôl y toriad wedi'i ddosbarthu rhwng Rheoli Adnoddau Naturiol (Ymgynghoriaeth a Rheoleiddio), Rheoli Gwastraff a Defnydd Adnoddau'n Effeithlon (Bwrdeistrefol), ac Ansawdd Amgylchedd Lleol (Bwrdeistrefol) fel nodir ar y daflen, ac mae'r rhaniad wedi ei gytuno rhwng y Penaethiaid.

*I confirm that the grant for 2016/17 has reduced £136k compared to 2015/16 (approximately 4% lower). The residual grant has been distributed between Natural Resources Management (Consultancy and Regulatory Departments), Waste Management and Efficient Use of Resources (Municipal), and the Quality of the Local Environment (Municipal) as noted on the sheet, and the split has been agreed between the Heads.*

BARN YR AELOD LLEOL/VIEW OF LOCAL MEMBER
Dim yn fater lleol
*Not a local matter*

| LLOFNOD /SIGNED | DYDDIAD/DATE |
|---|---|
|  | 12/04/16 |